

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch			HSE/12/25
Dyddiad y Cyfarfod:	28 <sup>th</sup> Mawrth 2012	Statws Rhyddid Gwybodaeth:	Agored
Math o Bapur:	Uwch ben y llinell	Eithriadau:	
Cyfeirnod TRIM:	2012/127162		
Geiriau allweddol:	Adolygiad o ddatblygiadau a gweithgareddau'r HSE yng Nghymru		

## Adolygiad o weithgareddau'r HSE yng Nghymru

### Diben y papur

1. Rhoi adroddiad i'r Bwrdd ar ddatblygiadau polisi a gweithredol a gweithgareddau yng Nghymru yn ogystal â rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Bwrdd ar y cyd-destun cyfnewidiol y mae'r HSE yn gweithredu gyda Rhanddeiliaid yng Nghymru i gyflawni ei weithgareddau.

### Cefndir

2. Mae'r papur (Atodiad 1) yn rhoi'r diweddaraf i'r Bwrdd ar
  - ystadegau iechyd a diogelwch
  - y newid yn yr hinsawdd gwleidyddol, y parhad yn y broses o ddatganoli pwerau i Lywodraeth Cymru a'r berthynas gyda'r llywodraeth ddatganoledig a chyrrff eraill datganoledig yng Nghymru
  - ymyraethau gweithredol arwyddocaol

### Dadl

3. Mae'r Bwrdd yn cael trafodaethau cyson yng nghyswllt materion yng Nghymru. Gwelwyd newidiadau sylweddol yng nghyswllt y llywodraeth ddatganoledig ers i'r Bwrdd ystyried papur ar faterion Cymreig ddiwethaf yn Nhachwedd 2010.

### Gweithredu

4. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r newid yn y cyd-destun yng Nghymru, a'r gweithredu presennol i gyflawni'r strategaeth yng Nghymru.

### Cliriad i'r papur

5. Cliriwyd y papur hwn gan y SMT ar 7 Mawrth 2012.

## Atodiad 1

### Gweithgareddau'r HSE - y cyd-destun yng Nghymru

#### A. Ystadegau

##### Anafiadau

1. Yn 2010/11 roedd 6,064 o anafiadau i weithwyr y rhoddwyd adroddiad amdanynt dan RIDDOR yng Nghymru. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd o 542.8 i bob 100 000 o weithwyr, a gostyngiad o 24% ers 2006/07. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, mae'r gyfradd anafu ar gyfer Cymru yn dal yn uwch na'r un yn Lloegr (459.8 i bob 100 000 o weithwyr) a'r Alban (447.5 i bob 100 000 o weithwyr).

2. Mae'r ffigur diweddaraf ar gyfer anafiadau angheuol yn dangos bod 11 o weithwyr wedi marw yng Nghymru yn 2010/11, cyfradd uwch na Lloegr a'r Alban (0.8 o'i gymharu â 0.6 ar gyfer Lloegr a'r Alban). Ond, nid yw amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn mewn niferoedd mor fach yn cynnig cymhariaeth ddefnyddiol ar gyfer unrhyw flwyddyn unigol.

3. Mae cyfradd uwch o bobl yn cael eu cyflogi mewn swyddi â mwy o berygl yng Nghymru nag yn Lloegr; mae'r cyfraddau anafiadau yng Nghymru yn gyson â rhai Lloegr ar draws galwedigaethau tebyg. Y math o alwedigaeth yw'r gyrrwr allweddol o ran risg yn hytrach na chategori'r diwydiant, ac felly mae amrywiadau daearyddol mewn cyfraddau anafiadau yn cael eu hesbonio i raddau helaeth ym Mhrydain fel cynnyrch cymysgedd alwedigaethol a diwydiannol cymharol rhanbarth.

4. Mae'r duedd yn y tymor hir ar draws Prydain ar gyfer anafiadau y rhoddwyd adroddiad arnynt dan RIDDOR yn parhau ar i lawr, ac mae'r dystiolaeth am Gymru yn gyson â hyn. Mae'r Arolwg Gweithlu (LFS) yn cadarnhau'r canfyddiadau RIDDOR trwy ddangos tuedd ar i lawr mewn anafiadau yng Nghymru. Mae'r cyfraddau digwyddiadau blynyddol a amcangyfrifwyd ar gyfer 2008/09-2010/11 yn sylweddol is yn ystadegol na rhai 2005/06-2007/08.

##### Salwch

5. Mae cyfradd cyffredinolrwydd salwch yn gysylltiedig â'r gwaith wedi eu cofnodi gan yr unigolyn yng Nghymru wedi gostwng ers 2003/04 o 5110 i 3630 i bob 100 000 o weithwyr. Mae'r gostyngiad hwn yn un arwyddocaol yn ystadegol ac yn gyson â'r gostyngiad yn Lloegr a'r Alban.

6. Collwyd cyfanswm o 1.5 miliwn o ddyddiau gwaith oherwydd salwch neu anafiadau yn gysylltiedig â'r gwaith yng Nghymru yn 2010/11 - mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o 1.4 i bob gweithiwr.

#### B. Y cyd-destun ar gyfer yr HSE yng Nghymru

7. Nid yw grymoedd creu deddfau lechyd a Diogelwch wedi eu datganoli ond mae materion iechyd a diogelwch yn torri ar draws cyfrifoldebau Gweinidogion a gwaith Cyfarwyddiaethau cefnogol Llywodraeth Cymru (LIC). Yn dilyn etholiadau ym Mai 2011, cafwyd newidiadau i gyfrifoldebau Gweinidogol a phenodiadau newydd ledled

LIC; mae'r HSE yn parhau i sicrhau bod ymgynghori ar gynigion deddfwriaethol a busnes y Cynulliad yn digwydd.

8. Yn 2011, cyfrannodd FOD Cymru i Ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol) i ofal preswyl i bobl hŷn yn amlinellu rôl yr HSE fel rheolydd; ac i'r Ymchwiliad i Hanson Cement, Gogledd Cymru a sefydlwyd mewn ymateb i bryderon y gymuned ynglŷn ag effaith y safle arnynt. Mae'r HSE yn parhau i fod yn rhan o Fforwm Cymru Gydnerth; Fforwm Rheolyddion Cymru; i weithio gydag Arolygiaethau eraill a chyfrannu i bwyllgorau allweddol LIC ble fo'n briodol. Mae Concordat rhwng yr HSE a LIC yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac mae'r FOD hefyd yn ystyried a oes angen trefniadau cyswllt lleol a chyfathrebu mewnol pellach.

9. Ystyrir bod cysylltiadau'r HSE i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CLILC, yn allweddol i ddeall cyfeiriad diwygio ALI yng Nghymru. Mae'r symudiad tuag at ystyried gwasanaethau a rennir ar draws y 22 ALI yng Nghymru yn edrych yn debygol o gael effaith ar ALLau fel deiliaid dyletswyddau ac fel Rheoleiddwyr Iechyd a Diogelwch, ac mae'n ymddangos yn rhywbeth y mae'r weinyddiaeth newydd yn dymuno ei hyrwyddo. Mae FOD Cymru yn parhau i gefnogi partneriaid ALI trwy'r grwpiau tasg rhanbarthol; mae'r Pennaeth Gweithrediadau yn mynychu cyfarfodydd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru.

10. Cyflwynodd yr HSE Gynllun Iaith Gymraeg diwygiedig a'i adroddiad monitro blynyddol cyntaf ar weithrediad ei Bolisi Iaith Gymraeg i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2011. Roedd y bwrdd yn canmol yr HSE am ddarparu hyfforddiant yn yr iaith yn ogystal â'i ddyheadau o ran y Gymraeg. Mae'r HSE yn parhau i weithredu ei Bolisi Iaith Gymraeg yn ystod cyfnod o newidiadau yn nhrefniadaeth a gweithrediad yr HSE.

## **C. Cyfarwyddiaeth Sefydliadau Peryglus**

### **Diwydiannau cemegol**

11. 2010/11 oedd y flwyddyn gyntaf i'r dull Awdurdod Cymwys COMAH ar ei newydd wedd gael ei weithredu o ran Rheoleiddio COMAH, gan gryfhau arweinyddiaeth yr Awdurdod Cymwys ac arwain at fwy o ymwneud ar bob lefel rhwng yr HSE ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Mae'r canlyniadau erbyn hyn wedi cael eu gweld mewn cydlynw mwy cyson, gosod blaenoriaeth a darparu gwaith ar safleoedd COMAH.

### **Awdurdod Cymwys COMAH - newidiadau yng Nghymru**

12. Y bwriad yng Nghymru yw y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn torri oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd gan fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu a chyfarwyddo corff newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru fydd yn cael ei weithredu, os cytunir ar hynny, erbyn Ebrill 2013. Y bwriad yw trosglwyddo (cyn belled ag y maent yn berthnasol i Gymru) holl brif swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth i'r sefydliad newydd. Yr HSE ac Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r Awdurdod Cymwys COMAH ac nid yw COMAH wedi ei ddatganoli, felly nid yw'n glir beth fydd yn digwydd i ymwneud Asiantaeth yr Amgylchedd â COMAH yng Nghymru ar ôl y newid hwn, ond fe gymerir y gall trefniadau tebyg i'r rhai sydd yn yr Alban gael eu cyflwyno. Bydd yr

HSE (HID a FOD) yn parhau i gysylltu gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn ystod y cyfnod trosiannol hwn.

### **Materion rhanddeiliaid**

13. Sefydlodd Cymdeithas y Diwydiant Petroleum yn y Deyrnas Unedig (UKPIA) swyddfa gynrychioliadol yng Nghymru eleni i gydnabod pwysigrwydd strategol y diwydiant olew yng Nghymru, gyda dwy burfa: Valero, Penfro (Chevron gynt); a Murco, Aberdaugleddau, yn ychwanegol at rai o'r terfynfeydd storio olew mawr. Mae gan rai rhanddeiliaid mawr, gweithredwyr purfeydd yng Ngorllewin Cymru, bryderon parthed costau, cwmpas ac amserlen gweithredu argymhellion MIIB yn dilyn Buncefield, yn arbennig y rhai yn ymwneud â threfniadau cynhwysiant atodol i sicrhau rheolaeth amgylcheddol digonol.

### **Ymchwiliad i'r marwolaethau niferus ym Mhurfa Chevron**

14. Achosodd ffrwydrad a tân ar y brif uned adfer ym Mhurfa Chevron ym Mhenfro bedair marwolaeth, ac anafiadau difrifol i un unigolyn ar y safle. Roedd hyn yn dilyn gweld sylweddau fflamadwy yn tanio mewn tanc oedd yn cael ei baratoi gan gontractwyr i'w archwilio yn fanwl. Roedd y digwyddiad yn ddamwain fawr yr oedd yn rhaid rhoi adroddiad arni i'r Comisiwn Ewropeaidd dan Gyfarwyddeb Seveso. Mae'r ymchwiliad yn cael ei gynnal ar y cyd gyda Heddlu Dyfed Powys, sydd yn cael y lle blaenaf dan y Protocol Marwolaethau yn Gysylltiedig â'r Gwaith. Mae'r ymchwiliad yn parhau fel ymchwiliad ar y cyd, mae yn eithriadol o gymhleth ac ni ddylid tynnu unrhyw gasgliadau ar hyn o bryd. Goruchwylir yr ymchwiliad ar hyn o bryd gan y Gold Group ac mae'n cael ei adolygu yn gyson gan Wasanaeth Eryl y Goron a'r Pennaeth Gweithrediadau yn HID CI2.

### **Diwydiannau Arbenigol**

15. Mae'r Adran Diwydiannau Arbenigol wedi parhau ei gwaith i sicrhau bod dwy derfynfa mewnforio Nwy Naturiol Hylifedig (LNG) yn Aberdaugleddau yn parhau i fodloni gofynion diogelwch fel y byddant yn dod yn llwyr weithredol. Mae'r terfynfeydd yma yn safleoedd COMAH haen uchaf a byddant o bwysigrwydd strategol cynyddol wrth ddiwallu anghenion ynni Prydain dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd yr HSE yn parhau i ymwneud â'r safleoedd hyn i sicrhau bod safonau diogelwch yn cael eu cynnal.

16. Mewn dyfarniad diweddar gan y Llys Hawliau Dynol Ewropeaidd (ECHR) yn achos "Hardy & Maile v y Deyrnas Unedig" ni chanfuwyd bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi torri unrhyw reolau o ran rhoi caniatâd ar gyfer mewnforio LNG i Aberdaugleddau. Roedd y Llys yn 'fodlon bod fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol eang yn ei le...i hyrwyddo diogelwch ac i gyfyngu'r risgiau y mae trosglwyddo a phrosesu LNG yn yr ardal yn eu creu'. Roedd y dyfarniad yn disgrifio sut yr oedd yr HSE wedi cyflawni ei swyddogaethau statudol, gan nodi bod yr HSE 'wedi chwarae rôl bwysig'. Mae Llywodraeth Cymru yn arwain ar ail fater cysylltiedig lle mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn honni bod y Gyfarwyddeb Asesu Effaith Amgylcheddol wedi ei thorri ar y sail ei fod yn ystyried na chynhwyswyd asesiad risg digonol fel rhan o'r broses Asesiad Effaith Amgylcheddol gwreiddiol cyn i'r terfynfeydd LNG gael caniatâd cynllunio.

17. Mae terfynfa Nwy Naturiol Hylifedig South Hook yn un o'r rhai mwyaf yn Ewrop. Ymwelodd Judith Hackitt â'r derfynfa ar 4 Gorffennaf 2011. Rhoddodd y safle

drosolwg o'u gweithgareddau a'u system reoli iechyd a diogelwch. Maent wedi goresgyn y sialensiau hanesyddol a wynebwyd yn ystod y gwaith o adeiladu a chomisiynu'r safle gan roi adborth positif ar ddull o ymyrryd Awdurdod Cymwys COMAH yn 2011.

18. Agorodd Wales and West Utilities (WWU) eu cyfleusterau hyfforddi nwy newydd yng Nghasnewydd ar 1 Medi 2011. Mae'r cyfleusterau yn rhoi cyfle i WWU wella ansawdd yr hyfforddiant ymarferol a roddir yn uniongyrchol i'w peirianwyr nwy i gefnogi ansawdd yr ymateb gan eu timau argyfwng rhwydwaith nwy a thrwsio.

19. Hysbysodd Gorsaf Bŵer Penfro'r HSE eu bod wedi dechrau comisiynu eu gorsaf a pharhaodd y gwaith o baratoi'r pibelli cyflenwi nwy yn ystod 2011 gyda'r bwriad o weld y safle yn cael ei gomisiynu yn llawn yn chwarter 1 2012/13.

## **Y Sector Mwyngloddio**

20. Mae'r HSE yn parhau i weithio gyda Heddlu De Cymru (sydd yn cael y lle blaenaf) yn yr ymchwiliad mawr a chymhleth i farwolaethau pedwar gweithiwr yn dilyn mewnlif dŵr ym Mhwll y Gleision ar 15 Medi 2011. Mae'r rhuthr wedi arwain at ddiddordeb gwleidyddol cynyddol yn ymwneud ag ariannu Gwasanaeth Achub y Pyllau Glo ac fe gyfarfu'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau â'r Gwir Anrhydeddus Peter Hain, yr HSE ac eraill i drafod ar 21 Chwefror. Gosododd yr Ysgrifennydd Gwladol weithred ar yr HSE i drefnu cyfarfod gyda'r diwydiant ac OGDau i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr arolwg sydd i ddod o drefniadau achub mwyngloddio; cynhaliwyd hyn ym Mhwll Unity yn Ne Cymru ar 29 Chwefror ac mae nodyn yn cael ei baratoi.

21. Ar 8 Rhagfyr 2011 cadeiriodd yr HSE gyfarfod o Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Pyllau De Cymru oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r rhan fwyaf o byllau Cymru a chynrychiolwyr y gweithlu. Bu'r cyfarfod yn trafod strategaeth y diwydiant ar gyfer gwella lechyd a Diogelwch yn y diwydiant, gwaith y Grŵp Arwain Diogelwch y Diwydiant Mwyngloddio a materion yn ymwneud ag achub mewn mwyngloddio.

## **D. Yr Adran Gwaith Adeiladu**

22. Mae'r diwydiant adeiladu yng Nghymru wedi dioddef dirywiad mewn prosiectau yn ystod y dirwasgiad. Ond, mae'r arolygon yng nghyhoeddiadau'r diwydiant yn dangos bod gwerth caniatâd cynllunio wedi codi yn 2011 o'i gymharu â 2010.

23. Mae'r prosiectau mawr yn cynnwys Gorsaf Bŵer Penfro, dadgomisiynu Gorsaf Bŵer Trawsfynydd a pharatoi i adeiladu un arall yn Wylfa, Stiwdios y BBC yng Nghaerdydd a gosod ffwrnais newydd mewn gwaith dur. Mae'r cyllid ar gyfer adfywio ac adnewyddu wedi parhau gyda phrosiectau mawr ym mhob rhan o Gymru ac mae llawer o waith adnewyddu yn y sector preifat. Mae'r gwaith adeiladu yn y sector addysg wedi parhau yn gryf. Cynhaliodd yr Adran Gwaith Adeiladu yng Nghymru nifer o ddigwyddiadau ar gyfer datblygwyr eiddo i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth i reoli eu prosiectau.

24. Targedir yr adnoddau arolygol ar y sectorau risg uchel sef asbestos, safleoedd bychain ac adnewyddu. Dyma'r meysydd sydd wedi gweld y crynhoad mwyaf o ddamweiniau a gorfodi. Y flwyddyn ddiwethaf cynhaliodd yr adran gwaith adeiladu yng Nghymru gyfnod o arolygiadau dwys ar adnewyddu gan arwain at roi rhybuddion i tua un safle o bob pump, yn bennaf i reoli'r risg o weithio ar uchder. Mae menter

debyg yn cael ei chynnal yn chwarter olaf 2011/12, eto yn targedu adnewyddu. Yn dilyn y cynllun arolygu adnewyddu y llynedd mae'r Adran Gwaith Adeiladu yng Nghymru wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ar gyfer datblygwyr eiddo i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth i reoli eu prosiectau.

25. Mae partneriaethau Gweithio'n Dda Gyda'n Gilydd Gogledd a De Cymru yn parhau i fod yn weithgar iawn, gan gynnal digwyddiadau ar gyfer y gadwyn gyflenwi gan gynnwys "Teithiau Fan Wen" a digwyddiadau yn benodol ar gyfer dylunwyr, sgaffaldwyr, myfyrwyr coleg, gwaith gydag asbestos ac iechyd mewn gwaith adeiladu. Mae'r bartneriaeth Gweithio'n Dda Gyda'n Gilydd rhwng diwydiant a'r HSE yn canolbwyntio ar thema diwydiant yn helpu diwydiant.

## **E. Y Sector Amaeth**

26. Mae'r Sector Amaeth a Bwyd yn cynrychioli'r HSE ar Bartneriaeth Iechyd a Diogelwch Ar Ffermydd Cymru a gyda'r FOD mae'n parhau i gefnogi cynlluniau a arweinir gan randdeiliaid Amaethyddol perthnasol yng Nghymru. Yn Ionawr 2012, fe wnaeth partneriaid yn y diwydiant ymrwymo yn gyhoeddus i weithio gyda'i gilydd ar gyfer cael diwydiant amaethyddol mwy diogel yng Nghymru trwy lansio siarter iechyd a diogelwch, sy'n debyg i'r un a lansiwyd yn Lloegr yn 2011. Llwyddwyd i gael presenoldeb cyfyngedig yn y Sioe Frenhinol trwy lunio partneriaeth gydag NFU Cymru ac mae gan Undeb Amaethwyr Cymru eisoes ddi-ddordeb mewn bod yn bartneriaid eleni. Cynhaliwyd dau ddiwrnod Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch Amaethyddol llwyddiannus yn ystod y flwyddyn waith hon yn Hwlfordd a Sir Fynwy gyda phresenoldeb da ac adborth cadarnhaol gan y Diwydiant.

27. Mae adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar reoleiddio amaeth yn well, yr adroddiad 'Hwyluso'r Drefn' yn cynnwys argymhellion i leihau'r baich rheoleiddiol ar ffermwyr gyda phwyslais ar gefnogi ffyniant busnes yn y sector hon. Mae'r dull yn cyd-fynd yn rhannol â'r gwaith a wnaed o'r blaen gan DEFRA (Lloegr) a SEARS (Yr Alban) ac er nad yw cwmpas yr adroddiad yn ymestyn i iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â'r gwaith mae yn rhoi trosolwg da o'r diwydiant yng Nghymru ac agwedd LIC ato.

28. Trwy orgyffwrdd fe all fod peth cyfraniad (cyfyngedig) i'r HSE mewn rhai meysydd yn arbennig yng nghyswllt y thema 'Lleihau'r nifer o arolygiadau' yn eu hadroddiad. Bydd y sector Amaeth yn cymryd rhan, os bydd hynny'n addas, os bydd y Grŵp Tasg a Gorffen yn cael ei sefydlu.

29. Mae'r Gyfarwyddiaeth Reoleiddio Cemegolion (CRD) yn ymchwilio i adroddiadau o werthu a chyflenwi plaladdwyr yn anghyfreithlon yng Nghymru neu unrhyw adroddiadau am gamddefnyddio pleiddiaid. Mae samplau ar gyfer profi gweddillion plaladdwyr yn cael eu prynu gan siopwyr o ganolfannau adwerthu yng Nghymru. Yn ychwanegol mae samplau yn cael eu cymryd yng Nghymru gan Arolygwyr Marchnata Garddwriaethol (a gyflogir gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig) a gan Arolygwyr Iechyd Planhigion a Hadau (a gyflogir gan yr Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd) i'w profi. Fe wneir y gwaith samplu i sicrhau nad eir dros y lefelau cyfreithlon o weddillion pleiddiaid mewn bwyd. Mae'r CRD a Thîm Diogelwch Cynnyrch Cymru a'r De Orllewin yn ymchwilio i faterion o beidio â chydymffurfio yn ymwneud â chofrestru sylweddau dan Reoliadau REACH gan gwmnïau yng Nghymru.

## F. Sector Cyhoeddus

### Iechyd

30. Mae GIG Cymru yn chwarae rôl allweddol wrth gynnig arweiniad i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ac mae gwaith parhaus FOD gyda Chyfarwyddwr Cyffredinol GIG Cymru wedi arwain at sefydlu Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar Iechyd a Diogelwch yn eu Fframwaith Ansawdd Blynyddol. Roedd yn ofynnol i Fyrddau Iechyd roi adroddiad ar y cynlluniau Iechyd a diogelwch presennol ac ar ddatblygu medrusrwydd Iechyd a diogelwch Cyfarwyddwyr Byrddau ac Arweinwyr Gweithredol. Cynhaliodd yr HSE weithdy i gefnogi gwelliannau yn y ffordd y rheolir ystâd y GIG yng Nghymru, yn arbennig eu 'Dyletswydd i Reoli' Asbestos. Gwahoddwyd Prif Weithredwyr ac aelodau Byrddau Iechyd y GIG a sail y drafodaeth oedd y materion allweddol arweiniad, cyfraniad gweithwyr a dangosyddion perfformiad.

31. Mae GIG Cymru yn parhau yn randdeiliad allweddol wrth gael gwelliant parhaus yn y sector hon a bydd FOD yn parhau i ddatblygu ac adeiladu ar y berthynas hon. Dynodwyd y mater o GIG Cymru fel deiliad dyletswydd ac mae dan drafodaeth ar hyn o bryd gyda LIC.

### Awdurdodau Lleol

32. Mae awdurdodau lleol yn gyflogwyr a chomisiynwyr gwaith a gwasanaethau mawr trwy Gymru gyfan. Fe wnaeth FOD gwblhau gwaith yn 2011 pan wnaeth y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru gyflwyno cynlluniau yn amlinellu eu trefniadau ar gyfer rheoli a rhoi blaenoriaeth i Iechyd a Diogelwch. Rhoddwyd adborth penodol i'r holl Brif Weithredwyr a'u Timau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn pwysleisio eu perchnogaeth, eu harweiniad a'u cyfrifoldeb am gyflawni. Roedd y gwaith hwn yn cyplysu gyda blaenoriaeth y FOD i adolygu rôl ALI wrth gaffael gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu. Mae'r holl gaffael a gwasanaethau mewnol ar gyfer gwastraff ac ailgylchu mewn ALLau yng Nghymru wedi cael ei adolygu ac fe gynllunnir gwaith dilynol at y flwyddyn nesaf.

### G. Gorfodi:

33. Mae'r gweithredu gorfodi sy'n haeddu sylw yng Nghymru yn ddiweddar yn cynnwys:

- erlyn peiriannydd nwy am osod bwyler a ddisgrifiwyd fel un "beryglus ar unwaith," gan dorri Rhybudd Gwahardd blaenorol. Fe ohiriwyd yr achos dair gwaith gan na wnaeth yr unigolyn ymddangos yn y llys. Fe'i cyfeiriwyd i Lys y Goron lle cyhoeddwyd gwarant i'w arestio ac fe'i dedfrydwyd yn y pen draw i 8 mis o garchar.

- erlyn cwmni pecynnau o Gaerffili, ar ôl i weithiwr gael ei ladd pan wnaeth cwpwrdd metel hanner tunnell syrthio arno. Aeth y cwmni yn fethdalwyr yn fuan ar ôl y digwyddiad ond fe wnaeth yr HSE ddal ati gyda'r ymchwiliad ac fe gafwyd y cwmni yn euog. Nododd y Barnwr y byddai wedi rhoi dirwy sylweddol iawn, heblaw am sefyllfa ariannol y cwmni. Fe gododd ddirwy o £5000 a rhoi'r costau llawn i'r HSE.

- cychwyn camau cyfreithiol yn erbyn cwmni cyfyngedig a dau unigolyn, cyfarwyddwr ac uwch reolwr yng nghyswllt rheoli Iechyd a diogelwch mewn Cartref Nyrsio. Mae'r achosion yn cael eu herlyn ar y cyd gyda'r CPS a wnaeth hefyd gyflwyno cyhuddiad

o dwyll yn erbyn un o'r diffynydion, fel Cyfarwyddwr y cartref. Mae hwn yn ymchwiliad sylweddol a chymhleth sy'n golygu cydweithio gyda Heddlu Gwent.

- treial cwmni yn Llys y Goron, Yr Wyddgrug, yn dilyn marwolaeth contractwr yng Ngorsaf Bŵer Cei Connah ar ôl iddo syrthio i sŷmp dŵr oeri. Roedd gan y cwmni amddiffyniad ond fe newidiodd y cwmni ei ble i euog ganol yr wythnos ac fe'u dirwywyd £35000 yng nghyswllt y cyhuddiad o beidio â sicrhau iechyd a diogelwch gweithwyr, a pheidio ag asesu'r risgiau oedd ymhlyg mewn glanhau a diheintio'r tŵr oeri. Adferwyd y costau llawn o £120000.

- Bu HID a FOD yn gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i ymchwilio i farwolaeth gweithiwr mewn cwmni ailgylchu metel ar ôl iddo gael cyfarwyddyd i wasgu nifer o ganiau aerosol, a aeth ar dân wedyn. Fe wnaeth yr HSE erlyn dau gwmni (y cyflenwr a'r cwmni ailgylchu metel) ac fe wnaeth y CPS ddwyn cyhuddiadau HSWA S7 yn erbyn unigolyn - dyfarnwyd dirwyon o £330,000, £50,000 a £10,000.

- erlyniad yn Llys Ynadon Caernarfon yn Ionawr 2012 am ddigwyddiad ym Medi 2009 a arweiniodd at ryddhau 50kg (100 litr) o LPG propan. Er na wnaeth y digwyddiad arwain at unrhyw anafiadau, roedd potensial ar gyfer anafiadau personol difrifol a/neu farwolaethau i'r pedwar unigolyn oedd yn bresennol petai'r cwmwl o nwy wedi tanio. Mae'r depot yng Nghaernarfon yn safle COMAH haen isaf ar gyfer storio a dosbarthu LPG Propan. Fe wnaeth y cwmni gyfaddef eu bod wedi torri Adran 2 (1) Deddf HSW ac fe'u dirwywyd £17,000 a'u gorchymyn i dalu costau o £3054.45.

- Gan weithio'n glos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, yng Ngorffennaf 2011 cyflwynodd yr HSE Rybudd Gwella ar yr Asiantaeth Olew a Phibelli (OPA) ar safle Bae Redcliffe oherwydd bod OPA wedi methu â dynodi camau darparu dŵr addas ar gyfer bod yn barod ar gyfer argyfwng, yn dilyn diffygion y tynnwyd sylw atynt yn ystod ymarfer argyfwng tua diwedd 2010. Mae OPA erbyn hyn wedi cydymffurfio â'r rhybudd a bydd yr HSE yn parhau i fonitro safonau yn ystod yr ymyraethau a gynlluniwyd yn 2012.

- mwy o weithgaredd gorfodi gan y grŵp gwaith adeiladu yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf, gan gynnwys dau achos gwahanol yn erbyn gwerthwyr tai am beidio â rheoli'r risgiau i gontractwyr oedd yn gweithio iddynt; achos yn erbyn datblygwr yr arweiniodd ei waith at ansefydlogi asbestos yn sylweddol a bod ei weithwyr yn agored i'r ffibrau ac erlyn cwmni yn dilyn gweld gweithwyr yn ymdrin â thrawstiau concriid â llaw a arweiniodd at anaf difrifol i weithiwr.

- mae Bwrdd Ysbyty wedi ymrwymo i raglen fawr ar gyfer rheoli cael gwared ar Asbestos a'i drwsio yn dilyn ymchwiliad pan gyhoeddwyd Rhybudd Gwella. Mae'r gwersi ehangach oddi wrth hyn wedi cael eu rhannu ar draws ystâd GIG Cymru.

- Yn dilyn archwiliad a gynhaliwyd fel rhan o ymateb yr HSE i'r Afiechyd y Lleng filwyr a fu ym Mlaenau'r Cymoedd yn Ne Cymru, gwaharddwyd cwmni rhag gweithredu tyrrau oeri nes byddai rheolaeth addas yn ei lle ac fe'u herlynwyd yn y pen draw. Yn ystod yr archwiliad fe welwyd bod y cwmni wedi bod yn gweithredu tŵr oeri ar y safle, yn achlysurol dros gyfnod o bum wythnos, heb gymryd camau addas i reoli'r risg o weld y bacteriwm Legionella yn cynyddu.